UmbrellaCymru
www.umbrellacymru.co.uk | 0300 3023670
@umbrellacymru | info@umbrellacymru.co.uk
Rhif Elusen Gorfrestredig | Registered Charity Number | 1160909

# Proffil Swydd

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

| | |
|---|---|
| Rôl: | Cydlynydd Prosiectau a Gwasanaethau (PSC18) |
| Pwrpas: | Cydlynu'r ddarpariaeth o brosiectau a gwasanaethau cefnogi |
| Lleoliad: | Y Coed Duon, Caerffili. Bydd gofyn teithio yn rheolaidd. |
| Oriau / Tâl: | 22.5 - 30 awr yr wythnos (hyblyg gyda photensial am oramser; bydd angen gweithio rhai nosweithiau a phenwythnosau). Rhoddir ystyriaeth i rannu swydd. |
| Hyd: | Dros dro - 6 mis gyda'r posibilrwydd o estyniad. |
| Cyflog / Cyfradd: | £19,500 pro rata |

## Trosolwg

Mae Umbrella Cymru'n darparu amrywiaeth o wasanaethau mewn perthynas ag amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiad rhywiol a rhywedd yn cynnwys:

- Gwybodaeth a Dangos y Ffordd
- Cyngor ac Arweiniad
- Eiriolaeth
- Cefnogaeth Ymarferol
- Gwrando a Bod yn Gyfaill
- Cefnogaeth Emosiynol
- Gwasanaeth Proffesiynol a Chorfforaethol

Rydym yn ymfalchïo yn y gwasanaethau a gynigiwn ac yn ofalus yn eu cylch a cheisiwn ddangos hyn drwy roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth orau i bobl.

Mae hyblygrwydd yn ganolog i bopeth a wnawn a cheisiwn gefnogi pobl ble maen nhw am gael eu cefnogi a sut a phryd y maen nhw am ei derbyn. I wneud hyn mae angen tîm hyblyg ac ymroddedig sy'n cael eu gyrru i gyflawni.

Bydd y rôl yma'n ein helpu i barhau i ddatblygu ein gwasanaethau a gwella'r gefnogaeth a gynigiwn. Fel person sy'n gryf eich cymhelliad ac yn frwdfrydig dros ein gwasanaethau, byddwch yn helpu i ddarparu rhagoriaeth i'n cleientiaid a'n partneriaid.

## Prif dasgau / cyfrifoldebau

Cydlynu'r ddarpariaeth o wasanaethau sydd ar gael i gleientiaid a phobl broffesiynol yn cynnwys mynychu digwyddiadau i roi cyhoeddusrwydd i Umbrella Cymru.

Cydlynu prosiectau lleol a chenedlaethol.

Arolygu a datblygu staff a gwirfoddolwyr.

Darparu cefnogaeth i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

## Bydd deilydd y swydd yn:

- Cynnal asesiadau cefnogaeth i adnabod anghenion, amcanion a chanlyniadau dymunol.
- Cydlynu cefnogaeth yn seiliedig ar yr anghenion a'r amcanion a nodwyd.
- Arolygu Aelodau Tîm a Gwirfoddolwyr.
- Datblygu, rheoli a hyrwyddo prosiectau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.
- Monotri cyllid prosiectau.

## Bydd tasgau ychwanegol yn cynnwys:

- Diweddaru gwybodaeth ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer Aelodau Tîm a phobl broffesiynol.
- Ymchwilio a darparu gwybodaeth gywir yn ôl y galw.
- Hyrwyddo ein gwasanaethau, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd mewn digwyddiadau a thrwy weithgareddau eraill.
- Cysylltu gyda darparwyr gwasanaethau eraill i ddatblygu cysylltiadau allweddol a chyfeirlyfr gwasanaethau.
- Cynnal cofnodion cywir a chyfredol.
- Darparu adroddiadau a'r newyddion diweddaraf ar gyfer yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ôl y galw.
- Ymgymryd â thasgau eraill yn ôl y galw.

## Meini prawf penodol i'r rôl

Yn ogystal â'r uchod, rydym wedi asesu bod angen y canlynol ar y rôl:

## Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol.

- Sgiliau rheoli amser a sgiliau trefnu rhagorol.
- Sgiliau cyfrifiadurol / TGCh rhagorol (Pecynnau a chronfeydd data Microsoft yn hanfodol).
- Profiad o gyflwyno / rheoli prosiectau neu lwyth gwaith cymhleth.
- Rhaid bod â thrwydded yrru y DU sy'n ddilys a rhaid cael mynediad i gerbyd.

Dymunol

- Profiad o gefnogi pobl / gwaith achos / cydlynu gofal.
- Profiad o weithio ym maes amrywiaeth rhywiol a rhywedd.
- Meddu ar gymwysterau Rheoli Prosiectau.
- Profiad o gyfrifo / Rheolaeth ariannol neu'r gallu i olrhain gwariant prosiectau.
- Profiad o gefnogi staff uwch.
- Y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg.

Meini prawf personol:

Rhaid i bawb sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gydag Umbrella Cymru:

- Ystyried barn ac amgylchiadau pobl eraill gan ddarparu gwasanaethau cynhwysol, cyfrinachol sydd ddim yn gwahaniaethu nac yn barnu.
- Gweithio fel rhan o dîm a chyfrannu at lwyddiant menter grŵp.
- Dangos blaengarwch a chefnogi eraill yn ymarferol.
- Gweithio gyda phobl o gefndiroedd amrywiol, eu cefnogi a'u parchu am eu credoau a'u gwerthoedd.
- Cyfrannu'r amser a'r ymroddiad y mae'r rôl yn galw amdanynt.
- Cadw cyfrinachedd llwyr yn unol â chanllawiau cefnogi a'r gyfraith.
- Cefnogi a hyrwyddo nodau a gwerthoedd y sefydliad.
- Gweithredu'n foesegol, gyda gonestrwydd, cywiredeb a didwylledd bob amser.

Mwy o Wybodaeth

Mae'r rôl yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol o fewn amgylchedd creadigol a hyblyg. Caiff y rôl ei gyllido'n rhannol gan y Loteri Genedlaethol.

Dyddiad Cau:

Anfonwch eich cais cyn 12pm (canol dydd) 03-12-2018

Yn ogystal â'ch ffurflen gais, os byddwch yn cael eich rhoi ar y rhestr fer, cewch eich gwahodd i gyfweliad (naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb).

UmbrellaCymru
www.umbrellacymru.co.uk | 0300 3023670
@umbrellacymru | info@umbrellacymru.co.uk
Rhif Elusen Gorfrestredig | Registered Charity Number | 1160909

Os byddwch yn llwyddiannus ar ôl y cyfweliad byddwn yn cynnal fetio. Rhaid i chi gael eich clirio drwy'r broses fetio cyn i chi allu gwirfoddoli gyda ni. Mae hyn oherwydd natur sensitif y gwaith a wnawn a'r wybodaeth rydyn ni'n ei chadw.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â hyn neu am unrhyw ran o'r broses ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu â ni.